



Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2018/19 Crynodeb Gweithredol

Tachwedd 2019

I gael fersiwn lawn o'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol anfonwch ebost at quality@caerdydd.ac.uk

**Tîm Ansawdd a Safonau
Y Gofrestrfa
Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
Prifysgol Caerdydd**

ADRODDIAD ANSAWDD BLYNYDDOL 2018/19

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi trosolwg cyfannol o systemau rheoli ansawdd academaidd y Brifysgol yn ystod sesiwn academaidd 2018/19. Mae'r adroddiad yn ystyried holl elfennau'r system ansawdd academaidd, gan gynnwys gweithgareddau sicrwydd ansawdd, gwella, asesu a derbyn myfyrwyr ac mae'n cadarnhau bod yr holl brosesau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod gweithgaredd gwella yn ymateb i adborth a gofynion allanol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi statws risg a naratif ar gyfer pob maes gweithgaredd y gall y Cyngor roi sicrwydd i CCAUC yn ei gylch o ran diwallu ei gyfrifoldebau o dan [Ddatganiadau Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cyrff Llywodraethol Sefydliadau a Reoleiddir](#) a'r [Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru](#).

Bydd adroddiad 2018/19, ac adroddiadau blaenorol, yn cael eu ddefnyddio fel ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer cyflwyniadau Adolygiad Gwella Ansawdd 2020 y Brifysgol, gan ddangos sut rydym yn parhau i fodloni'r gofynion sylfaenol perthnasol fel y'u nodir o dan Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC a Rhan 1 o'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrwydd Ansawdd ym Maes Addysg Uwch Ewrop (ESG 2015).

Statws Asesu Risg

Nodir dau faes (a ddangosir yn Nhabl 1) fel statws coch sy'n arwydd o faterion pryder difrifol: Asesu ac Adborth ac Achosion Myfyrwyr. Mae'r adroddiad yn nodi'r camau uniongyrchol a gymerir i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Gwelwyd gwelliannau mewn nifer o feysydd: Mae risgiau Darpariaeth Gydweithredol ac Adolygiad Cyfnodol wedi cael eu gostwng o 'ambr' i 'wyrdd'; Mae'r risg Gwallau Papur Arholi wedi'i ostwng o 'goch' i 'ambr' gan dynnu sylw at waith cydweithredol sylweddol a wnaed gan staff yn y Gofrestrfa ac Ysgolion sy'n gweithio i ddod o hyd i atebion a hwyluswyd trwy Ddigwyddiad Gwella Cyflym.

Mae Rheoliadau Academaidd, Adolygiad Blynyddol a Gwelliant, a risgiau Cymeradwyo Rhaglenni wedi aros yn 'ambr' er gwaethaf camau i ddatblygu polisïau a phrosesau newydd a fydd yn cael eu gweithredu yn 2019/20 gan nad yw'r canlyniadau wedi'u penderfynu eto.

Adran 1: Y cyd-destun allanol ar gyfer ansawdd a safonau

Ymweliad tair blynedd CCAUC â'r Brifysgol

Ym mis Hydref 2018, ymwelodd Swyddogion CCAUC â'r Brifysgol ar gyfer ei hymweliad Sicrwydd Tair Blynedd a chyfarfod ag ystod o staff yn y Brifysgol. Ystyriwyd adroddiad yr ymweliad gan Bwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC ym mis Chwefror 2019. Cadarnhaodd y Cyngor ymateb y Brifysgol i ganfyddiadau CCAUC ac nid oedd angen i CCAUC gymryd unrhyw gamau pellach.

Disgwyliadau ac Arferion Cod Ansawdd diwygiedig y Du ar gyfer Addysg Uwch

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd yr ASA y [Cyngor a'r Canllawiau](#) â ffocws sy'n ategu Disgwyliadau ac Arferion Cod Ansawdd diwygiedig y Du ar gyfer Addysg Uwch a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Er bod yn rhaid i ni fodloni'r Disgwyliadau ac Arferion Craidd a Chyffredin Cod Ansawdd y DU, pwrpas y Cyngor a'r Canllawiau yw cefnogi darparwyr addysg uwch y DU i ddatblygu prosesau sicrhau ansawdd priodol. Rydym wedi defnyddio'r cyfle i ymgorffori egwyddorion arweiniol Cod Ansawdd y DU trwy ein harferion sicrhau ansawdd fel rhan o ail-ysgrifennu cyfannol ein rheoliadau, polisiau a gweithdrefnau academaidd.

Mentrau i amddiffyn gwerth graddau'r DU

Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y cyrff sy'n cynrychioli sector addysg uwch yn y DU Ddatganiad o Fwriad, gan ailddatgan eu hymrwymiad i [amddiffyn gwerth graddau'r DU](#) a'u hymrwymiad i safonau academaidd tryloyw, cyson a theg. Mae Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd (UKSCQA) wedi cytuno bod angen gweithredu ymhellach i ateb yr her hon. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd UKSCQA ddwy fenter newydd a ddatblygwyd gan y sector i fynd ar drywydd yr ymrwymiad cynharach hwnnw. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i rannu syniadau ac archwilio'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn cynhyrchu'r Datganiad Canlyniadau Gradd.

Gofynion sylfaenol 'perthnasol' diwygiedig ar gyfer Sefydliadau sy'n destun Adolygiad Gwella Ansawdd

Ym mis Gorffennaf 2019, cadarnhaodd Cylchlythyr W19/23HE CCAUC mai dim ond y gofynion sylfaenol 'perthnasol' fyddai'n cael eu profi ar gyfer sefydliadau sy'n destun Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) o fis Ionawr 2020. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae'r dogfennau y mae'n ofynnol i ni eu cyflwyno fel rhan o'r broses QER (yr Adroddiad Newid) wedi'i diwygio i ganolbwyntio ar ofynion sylfaenol perthnasol, yn hytrach nag ar yr holl ofynion sylfaenol, gan ymgorffori'r elfennau newydd Cymru yn unig y llinell sylfaen yn unig.

Adran 2: Rheoliadau academaidd

Cwblhawyd yr adolygiad cyfannol a gwaith ail-ysgrifennu'r rheoliadau academaidd yn ystod sesiwn academaidd 2018/19. Bydd y strwythur newydd a gwahanu polisiau oddi wrth reoliadau yn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch hygyrchedd a newidiwyd yr arddull ysgrifennu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch darllenadwyedd.

Ymgwymerwyd â mapio cynhwysfawr o reoliadau, polisiau a gweithdrefnau fel gweithgaredd cyfochrog i ddangos sut rydym yn parhau i gydymffurfio â gofynion Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru a'r Safonau a'r Canllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (ESG 2015). Mae'r rhain yn sail i Adroddiad Newid y Brifysgol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r ASA fel rhan o'n Hadolygiad Gwella Ansawdd a gynhelir ym mis Mawrth 2020.

Bydd gweithrediad y rheoliadau a'r polisiau newydd yn cael ei adolygu i sicrhau na fu unrhyw ganlyniadau anfwriadol a chyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd erbyn diwedd sesiwn 2019/20.

Adran 3: Derbyn Myfyrwyr

Daeth y prosiect ar gyfer cadarnhau, clirio ac addasu UCAS (israddedig) i ben a daeth y gwasanaeth i fusnes fel arfer yn ystod sesiwn academaidd 2018/19. Mae cam tri y prosiect Dewis Cyntaf, a gyflwynodd broses newydd ar gyfer ystyried ceisiadau am raglenni UCAS, y mae angen eu hystyried yn ychwanegol e.e. cyfweliadau, wedi dod i ben. Bydd cam nesaf y prosiect Dewis Cyntaf yn adolygu'r prosesau ar gyfer ceisiadau am raglenni ymchwil ôl-raddedig.

Adolygwyd a diweddarwyd nifer o bolisiau derbyn yn ystod 2018/19 a gwnaed datblygiadau sylweddol i'r polisi derbyn cyd-destunol, gan gyflwyno metrigau amddifadedd newydd sydd, ynghyd â metrigau eraill, yn cael eu pwysoli i alluogi'r Brifysgol i wneud penderfyniadau cyd-destunol gwybodus.

Adran 4: Safonau Academaidd

Mae ein polisiau a'n gweithdrefnau monitro ac adolygu yn gwbl gyson â gofynion yr arferion craidd a chyffredin o fewn y disgwyliadau ar gyfer safonau [Cod Ansawdd diwygiedig y Du ar gyfer Addysg Uwch](#) ac yn sicrhau bod pob modiwl, uned astudio a dyfarniad yn cael ei fapio'n briodol yn erbyn y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch a'r lefelau credyd a nodir yn Fframwaith Cymwysterau Credyd Cymru.

Rydym wedi gwella ein proses Adolygu a Gwella Blynyddol, a fydd yn cael ei gweithredu yn 2019/20 a chefnogir gwelliant parhaus trwy'r defnydd helaeth o [bwyntiau cyfeirio allanol](#) priodol sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Ysgol, y Coleg a'r Brifysgol o'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwelliant.

Dyfarniadau Prifysgol

Mae'r Pwyllgor Dyfarniadau a Phrosesau, o dan awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Senedd a'r Cyngor, yn rhoi dyfarniadau'r Brifysgol, ac yn adolygu'r dyfarniadau a roddir a'u dosbarthiad yn dilyn diwedd pob sesiwn.

Nododd y Pwyllgor fod cyfran y graddau dosbarth 1af a ddyfarnwyd yn 2018/19 yn debyg i gyfran 2017/18 ac nad yw dadansoddiad cychwynnol ar draws y sefydliad o ddata ar lefel ysgol yn dynodi patrwm cyson a chanfyddadwy i'r cynnydd yng nghyfran y myfyrwyr sy'n ennill graddau dosbarth 1af. Trwy'r broses Adolygu a Gwella Blynyddol, gofynnir i ysgolion wneud sylwadau lle bu newid nodedig yng nghyfran y myfyrwyr sy'n ennill graddau da neu, mewn ychydig o achosion, lle y codwyd materion gan arholwyr allanol.

Arholwyr Allanol

Rydym wedi mabwysiadu a chynnig y cwrs Advance HE ar ddatblygiad proffesiynol arholwyr allanol, a dderbyniodd adborth rhagorol gan y rhai a gymerodd ran. Disgwyliwn redeg y cwrs ar ddau achlysur arall yn 2019/20.

Adran 5: Ymgysylltu â Myfyrwyr, a Phrofiad Myfyrwyr

Datblygu fframwaith unigol ar gyfer rheoli arolygon myfyrwyr

Amlinellodd yr adolygiad i brofiad myfyrwyr a gynhaliwyd gan Adolygiad yr Athro Nicholls yn 2018 yr angen i'r Brifysgol fynd i'r afael â heriau allweddol er mwyn sicrhau profiad mwy cyson i fyfyrwyr. Roedd yr argymhellion yn cynnwys datblygu un gwasanaeth data addysg a'r angen am gylch cynllunio gweithredu clir, gyda fframwaith cytunedig ar draws y Brifysgol ar gyfer rheoli arolygon. Rhoddwyd fframwaith rheoli arolwg newydd ar waith, sy'n gyson â'r broses Adolygu a Gwella Blynyddol (ARE), sy'n darparu proses gadarn i'r Brifysgol a ddefnyddir i gynllunio, adeiladu a hyrwyddo mecanweithiau arolwg ar gyfer gwrando ac ymateb i lais myfyrwyr a gweithredu arnynt.

NSS

Dangosodd canlyniadau ACF welliant mewn Boddhad Cyffredinol i 84.4%, sy'n parhau i fod o fewn y meincnod. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gweld cynnydd yng nghanran y rhaglenni sy'n sgorio boddhad 100% (i 15% o'n portffolio cymwys), gyda 22 rhaglen arall yn sgorio uwchlaw boddhad o 90%. Yn ogystal, roedd set ragorol o ganlyniadau sector gan gynnwys 1^{af} yn y DU ar gyfer leithyddiaeth, Astudiaethau Celtaidd a Daearyddiaeth Ffisegol a Gwyddor yr Amgylchedd, erbyn hyn mae gan y Brifysgol bum pwnc arall yn y 10 uchaf yn y DU.

Gwnaethpwyd gwelliannau sylweddol gan y ddau faes pwnc a amlygwyd fel pryder gan CCAUC y llynedd, Pensaernïaeth a Nyrsio a nodir nad oes unrhyw faes pwnc yn disgyn o dan y trothwy o foddhad o 70% dros gyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r Brifysgol wedi rhannu gyda CCAUC y camau yr ydym yn eu cymryd i wella sgoriau boddhad yr ACF. Yn dilyn hynny, dywedodd CCAUC fod y cynllun gweithredu a chanlyniadau'r ACF wedi cael eu hystyried gan ei Bwyllgor Asesu Ansawdd a bu iddynt gynghori bod y cynllun gweithredu:

“... Yn briodol, ac wedi dangos gwelliant ar y blynyddoedd blaenorol. Croesawodd yr aelodau fod y sefydliad yn cymryd y materion o ddifrif, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â phroblemau systemig.”

Asesu ac Adborth

Mae canlyniadau cyffredinol yr ACF ar gyfer Asesu ac Adborth yn parhau i fod yn gymharol sefydlog ar oddeutu 70% ac nid ydym wedi gweld y gwelliant a ddymunir. Nodwyd cyfres o gamau gweithredu ar gyfer gwelliannau yn ystod sesiwn academaidd 2019/20, gan gynnwys: dylunio cynllun cyflawni i drawsnewid Asesu ac Adborth (Tasglu A&F) ledled y Brifysgol, gyda strwythur llywodraethu clir; a chamau gweithredu sydd wedi'u nodi fel rhan o'r Prosiect Partneriaeth ar Lythrennedd Asesu. Fodd bynnag, gan na fu unrhyw welliant sylweddol yn y sgôr boddhad hwn yn 2018, mae statws yr asesiad risg yn parhau yn 'goch' o hyd.

Gwallau Papurau Arholiadau

Cynhaliwyd Digwyddiad Gwella Cyflym ym mis Ebrill a mis Mai 2019, a oedd yn canolbwyntio ar leihau gwallau papurau arholiad. Daeth â phrofiad ac arbenigedd

cyfunol staff gwasanaethau proffesiynol Ysgol a Chanolog, cydweithwyr academiaidd a myfyrwyr ynghyd i gynnal adolygiad manwl o'r broses lawn o naill ben i'r llall.

Nodwyd nifer o fentrau ac mae camau'n cael eu cymryd, gan gynnwys uwchlwytho papurau arholiad yn electronig, gan ganiatáu mwy o amser i staff baratoi papurau a gwirio papurau arholiad. Canlyniad y camau sy'n cael a gymerir yw sicrhau bod prosesau ar waith i nodi gwallau yn gynharach, a thrwy hynny leihau nifer y gwallau papur arholiad i fyfyrwyr.

Gan fod cyfres glir o gamau yn cael eu cymryd, a chan fod canran gyffredinol y gwallau wedi gostwng yn ystod sesiwn 2018/19, mae'r statws risg wedi cael ei newid o 'goch' i ambr'.

Adran 6: Achosion Myfyrwyr

Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer Apeliadau Academiaidd, Ymarfer Annheg, Ffitrwydd i Ymarfer, Achosion Disgyblu a Chwynion Myfyrwyr yn parhau i fodloni'r gofynion i gyflawni'r disgwyliadau a'r arferion a nodir yng [Nghod Ansawdd diwygiedig y Du ar gyfer Addysg Uwch](#) yn llawn. Yn ogystal, fe'u mapiwyd i [Fframwaith Arfer Da ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau academiaidd](#) Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol gan fod hwn yn ofyniad sylfaenol yn [Fframwaith Asesu Ansawdd Addysg Uwch yng Nghymru](#).

Mae datganiadau blynyddol yr OIA yn cydnabod ymgysylltiad cadarnhaol y Brifysgol â'r OIA bob blwyddyn ac ein bod yn ymgysylltu â'i rhaglen allgymorth. Nid yw canlyniadau achosion a dderbynnir gan yr OIA, y rhai y gellir eu cyfiawnhau a'u setlo'n rhannol, yn anghyson â chanolrif y band ac mae'r OIA yn cadarnhau bod y Brifysgol wedi cydymffurfio ag argymhellion "myfyriwr-ganolog" ym mhob achos.

Er y bydd y gwaith a wnaed yn 2018/19 i adolygu a diwygio polisiâu a phrosesau yn symleiddio rhai meysydd gwaith ar gyfer 2019/20, mae maint y gwaith yn y maes hwn wedi cynyddu'n sylweddol, yn bennaf oherwydd y cynnydd cyflym a sylweddol yn nifer yr achosion yn ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr ac achosion cwynion myfyrwyr ond hefyd oherwydd i'r cynllun ymateb i ddatgelu ar-lein gael ei gyflwyno.

Effaith y cynnydd yng nghyfaint y gwaith fu oedi wrth ddod i gasgliad ac ymateb i achosion myfyrwyr ac, o ganlyniad, codwyd y risg o 'ambr' i 'goch' i adlewyrchu hyn. Mae nifer o gamau wedi'u targedu yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion a nodwyd ac ar ben hynny mae camau sefydlogi a buddsoddiad yn cael eu ceisio i sicrhau y cymerir camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r risg uwch hon ar gyfer achosion myfyrwyr.

Tabl 1: Crynodeb o Statws Asesu Risg Prosesau Ansawdd

Enw'r Gweithgaredd	Coch	Ambr	Gwyrdd	Newid ers 2017/18
Rheoliadau Academaidd		Ambr		=
Derbyn Myfyrwyr			Gwyrdd	=
Adolygu a Gwella Blynyddol		Ambr		=
Arholi Allanol			Gwyrdd	=
Y Polisi Cymeradwyo Rhaglenni		Ambr		=
Polisi Darpariaeth Gydweithredol			Gwyrdd	↓
Adolygiad Cyfnodol			Gwyrdd	↓
Achredu gan Gyrff Proffesiynol			Gwyrdd	=
Profiad y Myfyrwyr		Ambr		=
Cynllunio a Gwella'r Cwricwlwm		Ambr		=
Asesu ac Adborth	Coch			=
Gwallau Papurau Arholiadau		Ambr		↓
Cyhoeddi Canlyniadau		Ambr		=
Achosion Myfyrwyr	Coch			↑